# Parchu a Dathlu'r Amgylchedd

Rydym wedi ymrwymo i godi ymwybyddiaeth am yr amgylchedd ac annog pawb i gymryd cyfrifoldeb dros ddiogelu adnoddau naturiol effaith eu dewisiadau.

Rydym wedi ymrwymo i fod yn sefydliad sero net erbyn 2030 a chefnogi'r nod cenedlaethol o sero net erbyn 2050.

Byddwn yn canolbwyntio ar drafnidiaeth, bwyd, ynni, gwastraff, mannau gwyrdd, a'n hadeiladau i wneud y newidiadau sydd eu hangen.

Gwyddom fod yr amgylchedd yn effeithio ar les, a'r rhai mwyaf bregus yn ein cymuned yn aml yw'r rhai sy'n cael eu heffeithio fwyaf gan lygredd a llifogydd.

## Ein Huchelgeisiau

Erbyn 2030 rydyn ni am weld:

- Cawn ein cydnabod fel Cyngor blaenllaw ar waith i fynd i'r afael â'r argyfyngau hinsawdd a natur
- Rydym wedi dod yn sefydliad sero net ac rydym yn helpu sefydliadau a chymunedau i ddod yn sero net
- Mae pobl yn dewis defnyddio trafnidiaeth gyhoeddus, cerbydau allyriadau isel a theithio llesol, fel cerdded a beicio
- Mae pobl yn ailgylchu mwy ac yn gwastraffu llai
- Gall pobl gael mynediad at fannau awyr agored da a dyfroedd ymdrochi glân
- Mae cartrefi, ysgolion ac adeiladau'r Cyngor yn gwastraffu llai o ynni
- Mae pobl yn falch o amgylchedd naturiol y Fro

## Ein Gweithredoedd

Er mwyn sicrhau bod hyn yn digwydd byddwn yn gweithio gyda'r gymuned a'n partneriaid i:

- Cyflawni ein rhaglen Prosiect Sero a chyflawni targedau sero net
- Creu polisïau cynllunio newydd i gefnogi tai sero net
- Cefnogi teithio llesol a hyrwyddo gwasanaethau trafnidiaeth gyhoeddus o safon
- Gosod pwyntiau gwefru cerbydau trydan a symud i ddefnyddio mwy o gerbydau trydan yn ein gwaith
- Arwain ar waith i gyflawni'r Strategaeth Gwastraff Genedlaethol 'Tuag at Ddim Gwastraff' a gweithio i gadw mwy o'n gwastraff yn lleol
- Cynyddu bioamrywiaeth a gwella ein seilwaith gwyrdd
- Lleihau llygredd a dal pobl i gyfrif
- Buddsoddi mewn technolegau gwyrdd i wastraffu llai o ynni
- Diogelu ein cymunedau rhag effaith llifogydd ac erydu arfordirol
- Cyflwyno Strategaeth Fwyd